| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Dr Griff Jones**<br>**Cadeirydd / Chair** | Cadeirydd Grŵp Llandrillo Menai ac yn aelod o Gorfforaeth Coleg Menai ers ei gorfforiad. Arferai Dr Griff Jones fod yn Llywodraethwr o Goleg Pencraig. Fe raddiodd fel biocemegydd gydag arbenigedd mewn Cemeg Amaethyddol. Cadeirydd Cyngor Coleg Llangefni. | Chair of Grŵp Llandrillo Menai and a member of the Corporation of Coleg Menai since its incorporation, Dr Griff Jones was previously a Governor of Coleg Pencraig. He graduated as a biochemist with specialisation in Agricultural Chemistry. Chair of Llangefni College Council. |
|  | **Alun Thomas**<br>**Is-gadeirydd** | Daw â'i arbenigedd cyfreithiol i Grŵp Llandrillo-Menai. Mae ganddo ddiddordeb brwd mewn datblygu ystadau, mae'n aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ac yn gyn cadeirydd Cyngor Glynllifon. Yn aelod ers 1995. | Brings his legal expertise to Grŵp Llandrillo-Menai. Alun takes a keen interest in estates development serving as a member of the Finance & Resources Committee and former Chair of Glynllifon College Council. A member since 1995. |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Andrea Adams**<br>**(Teaching)** | Aelod etholedig (Staff Addysgu): Ymunodd Andrea â'r staff yn 2015, bellach yn dysgu cyrsiau Arweinyddiaeth (ILM) a Marchnata (CIM) i'r sector gyhoeddus a phreifat ar gyfer Busnes@GLlM. Astudiodd Andrea marchnata fel rhan o'i meistri mewn addysg bellach. Mae hi hefyd yn canu mewn band, ac yn helpu rhedeg bwyty teuluol yn Llanfairfechan. | Elected member (Teaching Staff): Andrea joined the staff in 2015, now teaching Leadership (ILM) and Marketing (CIM) courses to both public and private sector for Busnes@Gllm. Andrea as part of her masters studied marketing in further education. She also sings in band, and helps run her family restaurant in Llanfairfechan. |
|  | **Dr Roy Bichan** | Yn aelod o Fwrdd y Gorfforaeth ers 2001 ac yn Gadeirydd o Grŵp Llandrillo-Menai 2012-2020. Mae'n Gyfarwyddwr ar sawl cwmni, hefyd yn gyn Cadeirydd o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) dros Gymru ac yn Gadeirydd Fforwm Economaidd Gogledd Cymru. Mae'n Gymrawd Anrhydeddus o Brifysgol Glyndŵr. | Member of the Corporation Board since 2001 and Chair of Grŵp Llandrillo-Menai 2012-2020. A Director of several companies, he is also past Chairman of the Confederation of British Industry (CBI) for Wales and is Chair of the North Wales Economic Forum. He is an honorary fellow of Glyndŵr University. |
|  | **Andy Billcliff** | Ar wahân i gysylltiad cryf â'r sector ynni trwy RWE Npower, mae Andy yn cefnogi cynllun prentisiaeth tyrbinau gwynt y Coleg sydd ar gampws Llandrillo-yn-Rhos. Mae Andy hefyd yn Gadeirydd o Gyngor Coleg Rhos. Roedd Andy yn Gadeirydd o CBI Gogledd Cymru yn 2013 ac mae'n aelod o Grŵp Budd Cymunedol Y Rhyl a Phrestatyn. | Andy, asides a strong past link to the energy sector through RWE Npower, supports the College through the wind turbine apprenticeship scheme at Rhos on Sea and as Chair of the Rhos College Council. Andy was Chair of CBI North Wales in 2013 and is a member of the Rhyl and Prestatyn Community Benefit Group. |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Dafydd Evans**<br>Prif Weithredwr<br>CEO<br>Aelod yn rhinwedd ei swydd<br>Ex-officio Member | Penodwyd Dafydd Evans yn Bennaeth Coleg Menai yn 2009 ar ôl bod yn Is-bennaeth, Cyllid a Chynllunio am 10 mlynedd. Yn cyn Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg yng Nghyngor Gwynedd. Mae'n gyfrifydd CIPFA cymwysedig; graddiodd mewn Ystadegau ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Cychwynnodd Dafydd yn ei swydd Prif Weithredwr y Grŵp yn Medi 2016. | Dafydd Evans was appointed Principal of Coleg Menai in 2009 having been Vice Principal, Finance and Planning for 10 years. Previously an Assistant Director of Education at Gwynedd Council. He is a qualified CIPFA Accountant having graduated in Statistics at University of Wales Aberystwyth. Dafydd became Grŵp CEO in September 2016. |
|  | **Helen Halpin** | Mae Helen Halpin yn Gyfarwyddwraig ar gwmni Carl Kammerling International Limited, mae'n Ysgrifenyddes i West Coast Investments Limited, yn Gyfarwyddwraig ar ddau Gwmni Almaeneg, yn Aelod o Fwrdd Gweithredol Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianneg ar gyfer Cynghorau Cymru a'r Gogledd Orllewin. Cadeirydd Cyngor Coleg Pwllheli a Phwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau. | Director of Carl Kammerling International Limited, Secretary of West Coast Investments Limited, Director of two German Companies, Member of the Executive Board of the Engineering Employers Federation North West and Wales Councils. Chair of Pwllheli College Council and the Curriculum Students and Standards Committee. |
|  | **Dr Gwyn Jones** | Mae gan Dr Gwyn radd anrhydedd dosbarth cyntaf a PHD. Mae'n Entrepreneur, Cyfarwyddwr ac Academydd profiadol. Ei feysydd arbenigedd yw Rheoli Entrepreneuraidd, Marchnata a Chyflogadwyedd. Mae wedi defnyddio'r rhain mewn gwahanol ddiwylliannau sefydliadol mewn Addysg Uwch, cwmnïau PLC mawr, y sector gyhoeddus a busnesau bach a chanolig. | Dr Gwyn holds a first class honours degree and a PHD. He is an experienced Entrepreneur, Director and Academic. His areas of expertise are Entrepreneurial Management, Marketing, and Employability. He has applied these in different organisational cultures in Higher Education, large PLCs, the Public Sector and SMEs. |
|  | **Dilwyn Evans** | Yn ôl proffesiwn mae'n Beiriannydd Siartredig ac wedi ymuno â Grŵp Llandrillo-Menai gyda phrofiad blaenorol mewn Cadeirio Pwyllgor Adnoddau ac Archwiliad. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. | A Chartered Engineer by profession, joining Grŵp Llandrillo-Menai with past Resources and Audit Committee Chairmanship experience. Chair of the Finance and Resources Committee. |
|  | **Peter Lavin** | Fel Rheolwr Gyfarwyddwr o westy lleol mae ganddo ddiddordeb brwd mewn datblygu lletygarwch a thwristiaeth yn yr ardal. Mae'n Gyfarwyddwr o Dwristiaeth Gogledd Cymru ac yn is gadeirydd o'r Sefydliad Lletygarwch Prydeinig, Rhanbarth Cymru. Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. | Managing Director of a local hotel and takes a keen interest in the further development of hospitality and tourism in the area. Director of North Wales Tourism and is vice-chairman of the British Hospitality Association Wales Region. Chair of the Audit Committee. |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Chris Morgans** | Mae Chris yn Gyfarwyddwr Cyfrifwyr Siartredig Sage & Co, Llanelwy. Mae Chris wedi eistedd ar y Pwyllgor Archwilio a Risg ers 2018 fel aelod cyfetholedig. Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019. | Chris is a Director of Sage & Co Chartered Accountants, St Asaph. Chris has sat on the Audit and Risk Committee since 2018 as a co-opted member. He joined the Board in March 2019. |
|  | **John Pierce Williams** | Cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau i Gleientiaid CAIS - cwmni sy'n ymwneud â helpu unigolion sydd â phroblemau cyffuriau ac / neu alcohol. Cadeirydd Cyngor Coleg Bangor. | Retired Director of Client Services at CAIS – a company that's engaged in helping individuals with drug and / or alcohol problems. Chair of Bangor College Council. |
|  | **Hedd Pugh** | Cyn Gadeirydd o fwrdd Coleg Meirion Dwyfor. Ffermwr hunan gyflogedig sy'n chwarae rôl allweddol yn ei gymuned fel Cynghorydd lleol a Chadeirydd am dros 25 mlynedd. Cadeirydd Cyngor Coleg Glynllifon a Dolgellau. | Former Chair of Coleg Meirion Dwyfor. A self employed farmer and closely focused in his community serving as a local Councillor and Chair for over 25 years. Chair of Glynllifon and Dolgellau College Councils. |
|  | **Marion Pryor** | Mae Marion Pryor yn uwch archwiliwr mewnol i Gyngor Ynys Môn. Mae ganddi brofiad yn y maes archwilio mewnol yn Heddlu Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyngor Sir Ddinbych. Yn fwy diweddar mae hi wedi gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru fel archwilydd allanol. | Marion Pryor is a senior internal auditor for Anglesey County Borough Council. She holds experience in senior roles in internal audit at North Wales Police, Natural Resources Wales, Countryside Council for Wales and Denbighshire County Council. More recently she has worked for the Wales Audit Office as an external auditor. |
|  | **Professor Carol Tully** | Mae Carol yn Gyn-Is-Ganghellor Prifysgol Bangor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) ac yn Athro Almaeneg. Daw â ugain mlynedd o brofiad o addysg uwch fel darlithydd, ymchwilydd, mentor ac uwch reolwr. Mae hi'n Gyfarwyddwr Undeb Trading Cyf, ac yn aelod o Gyngor Prifysgol Bangor. | Carol was Former Pro Vice-Chancellor at Bangor University (Education and Student Experience) and Professor of German. She brings twenty years' experience of higher education as a lecturer, researcher, mentor and senior manager. She is a Director of Undeb Trading Ltd, and a member of the Council of Bangor University. |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Brian Woosnam (Non teaching)** | Mae Brian yn gweithio yn adran Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu'r Grŵp, yn rhedeg y Siop Argraffu yng nghampws Rhos. Mae'n Stiward Siop Unsain ac yn aelod o Gyngor Coleg Rhos. Mae ganddo ddiddordeb brwd mewn Seryddiaeth amatur a beicio modur. Roedd Brian wedi gweithio yng Ngholeg Llandrillo ers dros 20 mlynedd. | Brian works as part of Grŵp Library & Learning Resources, running the Print Shop at Rhos campus. He is a Unison Shop Steward and a member of Rhos College Council. He has a keen interest in amateur Astronomy and motorcycling. Brian had worked at Coleg Llandrillo for over 20 years. |
|  | **Deio Owen SU President Llywydd UM** | Llywydd UM, myfyriwr Lefel A yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli. | SU President, studying A levels and based at Pwllheli. |
|  | **Andrea Faulkner** HE Officer Swyddog HE | Swyddog Addysg Uwch etholedig ar gyfer y Grŵp. | Elected HE Officer for the Grŵp. |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Toby G. Prosser, YH / JP**<br><br>**Cyfarwyddwr Llywodraethu & Gwybodaeth**<br><br>**Director, Governance & Information** | Cyfarwyddwr Llywodraethu & Gwybodaeth i Grŵp Llandrillo-Menai. Cyn-Gadeirydd Rhwydwaith Llywodraethu yng Nghymru. Cyn-Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol Glanwydden. Yn gyfrifol am Lywodraethu, Diogelu Data y Grŵp, RhG a Chwynion. | Director of Governance & Information to Grŵp Llandrillo-Menai. Past Chair of the Governance Network in Wales. Past Chair of Governors, Ysgol Glanwydden. Responsible for Governance, Grŵp Data Protection, FOI and Complaints. |
|  | **Caroline Jones**<br><br>**Swyddog Clercio'r Grŵp**<br><br>**Grŵp Clerking Officer** | Swyddog Clercio yn gyfrifol am Gynghorau Coleg Grŵp Llandrillo Menai ac yn ddirprwy i'r Swyddog Llywodraethu. | Clerking Officer, responsible for Grŵp Llandrillo-Menai College Councils and deputy to the Governance Officer. |

<u>Official Grŵp Llandrillo–Menai Composition (total 18):</u>

1 x Yn rhinwedd y swydd / Ex-Officio (CEO), 2 x Staff (dysgu a ddim yn dysgu / teaching and non teaching)
2 x Myfyriwr / Student - HE Officer / SU President, 13 Others from Employers / Local Business